Achredu Campau'r Ddraig

Cafodd 'Achredu Campau'r Ddraig yn Sir Gaerfyrddin' ei lansio ym mis Mawrth 2008 er mwyn cynnig cyfle i ysgolion dderbyn cydnabyddiaeth am eu hymrwymiad i ddatblygu gweithgaredd corfforol allgyrsiol drwy Gynllun Campau'r Ddraig.

Mae'r cynllun achredu yn dangos ac yn dathlu'r gwaith caled y mae ysgolion yn ei wneud yn wythnosol y tu allan i oriau 'arferol' yr ysgol drwy bortffolio o dystiolaeth. Mae ysgolion sy'n ennill y wobr yn derbyn tystysgrif a byddant yn gallu arddangos logo Campau'r Ddraig ar ddogfennaeth a gwefannau'r ysgol am ddwy flynedd.

Symudodd Mr David Morgan o Ysgol y Castell y broses ymlaen ac enillodd yr ysgol y wobr Achredu Campau'r Ddraig yn Sir Gaerfyrddin ym mis Ebrill 2010.

Mae Achredu yn golygu bod yn rhaid i ysgolion ddarparu tystiolaeth eu bod yn diwallu 9 maen prawf, gan gynnwys:

- cynnal clybiau yn unol ag ethos Campau'r Ddraig
- bod ag arweinyddion digonol sydd wedi eu hyfforddi
- dychwelyd gwybodaeth at staff Campau'r Ddraig ar amser
- hybu chwarae teg
- annog plant i fynychu clybiau chwaraeon lleol sy'n addas
- hybu gweithgareddau Campau'r Ddraig
- mynychu gweithgareddau cystadleuol addas
- annog staff a gwirfoddolwyr i fynychu cyrsiau ychwanegol
- annog gwirfoddolwyr i helpu i gynnal clybiau

Dywedodd David Morgan "Rydym ni eisiau sicrhau bod ein disgyblion yn cael y cychwyn gorau posibl mewn chwaraeon a cheisio darparu cymaint o weithgareddau allgyrsiol ychwanegol ag sydd yn bosibl."

Dywedodd Mari-Ann Jones, Cydgysylltydd Campau'r Ddraig 'Mae Mr Morgan a'r staff yn yr ysgol yn gweithio'n galed iawn er mwyn cynnig cyfleoedd allgyrsiol ychwanegol i'w disgyblion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y portffolio sydd wedi ei gwblhau ganddynt. Mae'r ysgol yn fodel gwych o Ysgol Campau'r Ddraig dda. '

Caiff Campau'r Ddraig ei ariannu gan y Cyngor Chwaraeon a'r loteri.